COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 8fed o IONAWR 2018 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.00.
Presennol: Ian Evans (yn y gadair),Alan Lewis,Aled Williams,Linda Williams,Tracey James,Heddwyn Jones,Tyssul Evans,Geoff Hewitt,Carol Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Margaret Rees, Meic Bowen a Geraint Rosser.

Materion Personol:-

1864 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn enwedig y Cynghorydd Aled Williams a oedd yn bresennol ar ôl cyfnod o dostrwydd. Cydymdeimlwyd a'r Cynghorydd Meic Bowen a gollodd ei fam yn ystod y dydd a safodd y Cynghorwyr mewn munud o dawelwch er coffa amdani.

1865 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 04/12/2017 fel rhai cywir.

1866 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 1850 - Rheilffordd Pontiets - Darllenwyd e-byst oddiwrth Mr Stuart Thomas yn cadarnhau y bydd y gwaith yn ail-ddechrau yn fuan. Gofynnir iddo roi amserlen yn cadarnhau hyn.

Tud 1. Cofnod Rhif 1850 - Traffig yn Ffoslas. Derbyniwyd amcan bris o'r gost o osod goleuadau fflachio ar yr hewl sy'n arwain at Ffoslas, Cadarnhawyd gan y Cyngor ein bod yn derbyn y pris o £1435.50 + TAW a bod y gwaith yn cael ei gwneud yn y flwyddyn ariannol 2018/2019.

Tud 2. Cofnod Rhif 1863 - Mainc wrth loches Bys Pontantwn. - Bydd y gwaith angenrheidiol yn cael ei gwneud cyn bo hir.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Carol Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1867 Eglwys Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

1868 Neuadd Eglwys Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £800.

Carol yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1869 Eisteddfod Llangollen – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

1870 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50

Cynghorwyr Linda Williams ac Alan Lewis yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1871 Moreia Meinciau – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500.

Linda ac Alan yn ail ymuno a'r cyfarfod.

1872 Cancer Information and Support Services – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1873 Cyngor Sir Gar – Praesept - Lythyr yn cadarnhau talu'r Praesept.

1874 HMRC – Newid y ffordd o hawlio TAW – Nodwyd y Llythyr.

1875 Cyngor Sir Gar – Hyfforddiant ar Gynllunio 18/01/18 – Nodwyd y Llythyr.

1876 Jamie King – Cynnal y Wefan – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r bil o £55.

Ceisiadau Cynllunio

1877 Ceisiadau Cynllunio

a) Cais Rhif W/36561 – Mr Stiles – Tir i'r gogledd o Heol y Meinciau, Pontiets (lawr o Lime Grove) – Amodau – Dim Gwrthwynebiad.
b) Cais Rhif W/36601 - Mr Martin Burke - Plot 3, Heol Mansant, Pontiets - Tŷ a Garej - Dim Gwrthwynebiad.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1878 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Rhagfyr 2017.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1879 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Rhagfyr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Rhagfyr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Rhagfyr)
ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Rhagfyr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Rhagfyr)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £45.48 (Mis Rhagfyr)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Rhagfyr)- £182.00
f) Excel Electrics - Gwaith ar Goed Nadolig Carwe - £1080.00
ff) Stampiau - £21.24
g) Ffon Symudol Newydd - £19.99

Materion Cynghorwyr

1880 **Aled -** Sbwriel wrth hen Glwb Carwe.

1881 **Ian -** Cysylltu â First Cymru ynglŷn â gosod amserlen ar Gysgodfa Bys Brynseilo

Cyfarfod nesaf:- 5ed o Chwefror 2018 yn Swyddfa'r Cyngor, Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……